Mae Cadeirydd pwyllgor y Babell Wyddoniaeth yn yr Eisteddfod yn drafftio neges e-bost ond mae angen mwy o waith arni gan fod ynddi wallau iaith a bylchau.

**At:** **lois.williams2@gwecym.net**
**Oddi wrth:** benthomas@gwyddon.net
**………………… :** Y Babell Wyddoniaeth

---

Annwyl Lois

Mae'r amser wedi dod unwaith eto i ni ddechrau cynllunio'r Babell Wyddoniaeth ar gyfer yr eisteddfod ac felly, rwy'n ysgrifennu ………………… i ofyn hoffech chi fod yn aelod o'r pwyllgor eleni eto.

Cawson ni nifer o syniadau gwreiddiol iawn gennych chi y llynedd, a bydden ni'n hapus iawn, felly, petaech chi'n cytuno i ddod aton ni unwaith eto ………………………….

Rydyn ni wedi derbyn rhai syniadau'n barod ar gyfer y babell. Dyma'r rhestr hyd yma:

- Arddangos model o'r calon er mwyn dangos beth yw ei rôl yn y corff

- Gwahodd pobl i ddefnyddio peiriant rhedeg yn y babell er mwyn mesur ei pyls cyn ac ar ôl iddyn nhw redeg

- Creu stondin byw'n iach a fydd yn cynnwys gwahanol fathau o fwydydd iach, gyda chlorian ar y llawr gerllaw. Byddwn ni'n gwahodd pobl i bwyso, yna gofyn iddyn nhw nodi mewn holiadur beth maen nhw'n ei fwyta fel arfer. Yna, bydd deietegydd ar gael i awgrymu sut y gallen nhw golli pwysau (os oes angen).

- Sioe wyddonol - gwahodd Dr Dai i wneud arbrawf cemegol eleni eto, gan ei fod yn gymaint o lwyddiant y llynedd. Dw i'n siwr ……………………….. i gyd yn cofio'r ffrwydrad uchel ar faes yr eisteddfod y llynedd!

Rhai syniadau'n unig sydd yma. Bydd aelodau'r pwyllgor yn dod â mwy o syniadau in cyfarfod nesaf.

Dyma'r manylion:
Byddwn ni'n cyfarfod yn Labordy Ffiseg 3 yn Ysgol Uwchradd Abermawr, nos Lun, Tachwedd 25 am 7.00 o'r gloch.

Gobeithio y byddwch chi'n gallu bod yn bresennol.

Cofion

Ben Thomas